
# Sut ydw i'n cael Mynediad at Ofal a Chymorth yng Ngogledd Cymru?

## Newidiadau Pwysig

Cyhoeddwyd Tachwedd 2019



[redacted]

Nod y daflen hon yw esbonio newidiadau pwysig i’r ffordd y caiff gofal a chymorth eu hasesu a’u darparu ar draws Cymru.

Os hoffech siarad yn fanylach am y daflen hon, ffoniwch y rhifau ar gefn y daflen

Maeîr ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Sae e

## Beth sydd yn y daflen hon


Beth yw ystyr rhai geiriau?............................................4

Beth yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?...............................................................6

Y Ddyletswydd Lesiant..................................................6

Y Gyfraith.....................................................................7

Beth mae hyn yn ei olygu?.........................................7

Beth yw Asesiad?.......................................................8

Mae'r ymagwedd yn newid..........................................9ψPDô

**Eiriolwr/eirioli**

mae eiriolwr yno i'ch cynorthwyo i fynegi eich meddyliau, teimladau, diddordebau a hawliau, dyma'r mathau gwahanol o eirioli:

**Hunaneirioli**

# Beth yw ystyr rhai geiriau?

| | |
|---|---|
| Eirioli heb gyfarwyddyd | Rhywun sy'n cefnogi ac yn galluogi i'ch llais gael ei glywed trwy ddod i'ch adnabod |
| Cymhwyster / cymwys | Mae gennych hawl i gael rhywbeth |
| Taliad Uniongyrchol | Mae hyn lle bo'r Cyngor yn talu unigolion yn uniongyrchol er mwyn iddynt brynu eu gofal eu hunain y byddai'r Cyngor wedi'i roi fel arall |
| Ataliol | Eich helpu i sicrhau eich lles ac osgoi anghenion sy'n cynyddu |
| Cynllun gofal a chymorth | Siarad am beth rydych am ei gael o'ch bywyd a sut gall ddigwydd |

## Beth yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi pobl i gael llesiant. Mae llesiant yn golygu bod unigolyn yn hapus, yn iach a'i fod yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y mae'n ei wneud.

Pobl sydd wrth wraidd y Ddeddf newydd. Mae'n rhoi llais cyfartal iddynt yn y gefnogaeth maent yn ei dderbyn. Mae hefyd yn cydnabod mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i farnu eu llesiant eu hunain.

Mae cydweithio'n bwysig i ddarparu gwasanaeth.

Nod gwasanaethau fydd atal anghenion rhag cynyddu. Byddant yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

### Ddyletswydd Lesiant

Mae gan bawb hawl i lesiant a chyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain. Mae'n bwysig i chi gael llais, bod â rheolaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch eich bywyd. O Dan y Ddeddf newydd, mae'n rhaid i bawb geisio hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a

## Y Gyfraith

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cymryd lle llawer o gyfreithiau blaenorol. Mae'n gosod cyd-ddyletswydd arnoch chi, ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol eich Cyngor i gyflwyno'r hyn sy'n bwysig i chi.

Mae gofyn i Gynghorau a Byrddau Iechyd gydweithio. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn golygu mai dim ond trwy'r Cyngor y mae modd diwallu angen os nad oes modd ei ddiwallu mewn unrhyw ffordd arall.

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Gall unrhyw un sy'n credu bod ganddo anghenion gofal a chymorth gysylltu â'i gyngor lleol. Ni wnaeth beth fo lefel yr angen na'i adnoddau ariannol.

Caiff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth eu rhoi. Caiff mwy o wasanaethau ataliol eu cynnig i'ch cynorthwyo o ran sicrhau eich lles eich hun a'ch helpu i osgoi gweld eich anghenion yn cynyddu.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Act 2014 a beth mae hyn yn ei olygu i chi ar gael yn: http://www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

Sgwrs yw 'asesiad'. Mae'n ein cynorthwyo i ddarganfod beth sy'n bwysig i chi nawr ac yn y dyfodol i'ch cadw'n iach a diogel.


Byddwn yn siarad am y pethau sy'n mynd yn dda a pethau sydd ddim cystal yn eich bywyd nawr. Byddwn yn gofyn i chi sut fywyd byddech yn ei ddymuno a beth hoffech ei gyflawni.

Gyda'n gilydd byddwn yn nodi pa gryfderau a / neu adnoddau sydd ar gael i chi.

Byddwn yn siarad am y bobl o'ch cwmpas ac yn eich

Mae’r ymagwedd at asesu a chymhwyster yn newid

Rydym ni’n cychwyn gyda chi



## Sut fywyd ydw i eisiau?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beth sydd bwysicaf i mi? | Sut ydw i'n aros yn iach ac yn ddiogel? | Nawr ac yn y dyfodol | Beth sy'n mynd yn dda? | Beth sydd ddim yn mynd yn dda? |

## Beth fydd yn digwydd?

Bellach mae pum elfen i 'asesiad'. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu hystyried cyn y gellir gwneud penderfyniad am eich anghenion gofal a chefnogaeth a sut y gellir eu diwallu. Byddwn hefyd yn ystyried a ydych angen unrhyw gefnogaeth, fel eiriolwr annibynnol. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan lawn yn y broses.



Gall yr asesiad ddod i ben gyda chyngor am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael a byddwn yn trafod sut i gael mynediad iddynt. Gall yr asesiad arwain at ddatblygu Cynllun Gofal a Chymorth wedi ei reoli.

3. Bodlonir os na allwch ddiwallu eich angen ar eich pen eich hun, gyda gofal a chymorth eraill sy’n gallu neu sy’n fodlon rhoi’r gofal a’r cymorth hwnnw; neu gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned.

4.

Mae’n rhaid bodlonir pedwar amod uchod er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cynllun gofal a chymorth rheoledig

## Beth mae'n rhaid i ni ei gofnodi amdanoch chi?


Bydd yr holl 'asesiadau' (sgyrsiau) a gynhelir yn berthnasol i'ch anghenion a'ch amgylchiadau. Dylai asesiad sydd wedi'i gwblhau o leiaf gofnodi:

- Gwybodaeth sylfaenol amdanoch chi fel ble rydych yn byw ac ati.
- Dadansoddiad o bob pum rhan o'ch asesiad (fel y'i disgrifir ar dudalen wyth)
- Camau a gymerwyd i gyflawni eich canlyniadau personol (beth sy'n bwysig i chi)
- Datganiad aseswyr am sut mae camau'n cyfrannu at gyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi

Dim ond os bydd ei hangen fel rhan o'ch gofal a'ch cymorth y caiff gwybodaeth amdanoch chi ei defnyddio neu ei throsglwyddo i eraill sy'n gysylltiedig â'ch gofal.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn dilyn ein sgwrs, caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu rhoi i chi. Efallai hefyd y bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd i gytuno ar gynllun gofal a chymorth i chi a/neu eich gofalwr.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau a/neu os ydych yn adnabod rhywun sydd angen cymorth gyda'i fywyd dyddiol, cysylltwch â ni

01248 752 752

ASDUTY@ynysmon.gov.uk

0300 456 1111

wellbeing@conwy.gov.uk

0300 456 1000

spoa@denbighshire.gov.uk

03000 858 858

spoa@flintshire.gov.uk

01286 682 888

cao@gwynedd.llyw.cymru

01978 292 066

cysylltwch@wrexham.gov.uk

Mae gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'ch Cyngor lleol

Crëwyd y ddogfen ar ran Cydweithredfa Gwella Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru